**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWYLLGOR LLYWODRAETHIANT AC ARCHWILIO**

**SUBJECT:** **PWYLLGOR LLYWODRAETHIANT AC ARCHWILIO - DYDD MERCHER, 12 GORFFENNAF 2023 DYDD MERCHER, 12 GORFFENNAF 2023**

**REPORT OF:**

---

PRESENT: J. ABSALOM (CADEIRYDD)

Councillors S. Behr (Is-gadeirydd)
W. Hodgins
C. Smith
M. Veale

WITH: Prif Swyddog Adnoddau
Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Llywodraethiant Phartneriaethau
Rheolwr Gwasanaeth – Datblygu a Stadau
Rheolwr Gwasanaeth Busnes ac Adfywio
Arweinydd Proffesiynol – Archwilio Mewnol
Swyddog Diogelu Data a Llywodraethiant
Rheolwr Cyfathrebu a Marchnata

A: Charlotte Owen, Archwilio Cymru
Mike Jones, Archwilio Cymru

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| No. 1 | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na chafwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |

| | | |
|---|---|---|
| **No. 2** | **<u>YMDDIHEURIADAU</u>**<br><br>Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan:<br><br>Cynghorwyr D. Bevan, K. Chaplin, J. Wilkins, Rheolwr Risg ac Archwilio, Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid a Deborah Woods, Archwilio Cymru. | |
| **No. 3** | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |
| **No. 4** | **<u>PWYLLGOR LLYWODRAETHIANT AC ARCHWILIO</u>**<br><br>Cyflwynwyd penderfyniadau'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio a gynhaliwyd ar 21 Mehefin 2023.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i gadarnhau'r penderfyniadau. | |
| **No. 5** | **<u>DALEN WEITHREDU</u>**<br><br>Cyflwynwyd y Ddalen Weithredu yn deillio o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mehefin 2023, ac ar hynny:<br><br>**<u>Eitem Rhif 7 – Blaenraglen Gwaith 2023/2024 -<br>Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio</u>**<br><br>Nodwyd y cafodd y cam gweithredu hwn ei gwblhau fel eitem yn gysylltiedig â'r Adroddiad Blynyddol a'i gynnwys ar y Flaenraglen Gwaith. Fodd bynnag, prif ymgynghorydd y Pwyllgor (mewn cysylltiad â'r Cadeirydd) fyddai'n gyfrifol am gynhyrchu'r adroddiad ac nid y Prif Swyddog Adnoddau/Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Llywodraethiant a Phartneriaethau fel yr adroddwyd yn flaenorol<br><br>**<u>Eitem Rhif 11 – Asesiad Effaith Integredig ar y Ganolfan Ddinesig – Nifer Ymwelwyr Canol Tref Glynebwy</u>**<br><br>Rhoddodd y Rheolwr Busnes a Gwasanaethau Adfywio ddiweddariad llafar ar heriau a chywirdeb data nifer ymwelwyr a gasglwyd ar gyfer canol tref Glynebwy ac awgrymodd, gan y cafwyd nifer o ymholiadau gan sawl Aelod am y data hwn, y gellid trefnu sesiwn wybodaeth i Aelodau i amlinellu'r fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer dyfeisiau cyfrif ymwelwyr a'r algorithmau a ddefnyddiwyd i feintioli'r data. | |

| | | |
|---|---|---|
| | PENDERFYNWYD yn unol â hynny.<br><br>PENDERFYNWYD YMHELLACH yn unfrydol, yn amodol ar yr uchod, i nodi'r Ddalen Weithredu. | |
| **No. 6** | **BLAENRAGLEN GWAITH 2023-24**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad Rheolwr Gwasanaeth Datblygu a Stadau.<br><br>Nodwyd y caiff yr eitemau ychwanegol a drafodwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Mehefin ei gynnwys o fewn y Flaenraglen Gwaith o hyn ymlaen.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i gymeradwyo Opsiwn 1, sef derbyn y Flaenraglen Gwaith. | |
| **No. 7** | **ARCHWILIO CYMRU: ADOLYGIAD O'R GWASANAETH CYNLLUNIO – CYNGOR BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth Datblygu a Stadau.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn y rhaglen a chymeradwyo Opsiwn 1, h.y. rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor fod yr Ymateb Rheoli yn ymateb i'r argymhellion a ddynodwyd o fewn adroddiad Archwilio Cymru yn ymwneud â'r adolygiad o'r Gwasanaeth Cynllunio. | |
| **No. 8** | **DATGANIAD CYFRIFON 2021/22**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 2, sef peidio cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon ar y cam hwn a'i ailystyried ar ôl derbyn ac ystyried Adroddiad Archwilio Cyfrifon yr Archwilydd a Benodwyd. | |
| **No. 9** | **DATGANIAD LLYWODRAETHIANT BLYNYDDOL 2021/22**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau. | |

| | | |
|---|---|---|
| | PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cymeradwyo a mabwysiadu Datganiad Llywodraethiant Blynyddol 2021/2022 fel y mae ar hyn o bryd ac y ceir Datganiad Llywodraethiant Blynyddol 2022/2023 maes o law. | |